



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner



Heddlu Police
**DYFED
POWYS**



25 Mehefin 2026

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Ysgrifennwyd gan: Tom Walters

Panel Craffu Annibynnol y
Ddalfa:
Defnyddio Grym yn y
Ddalfa

Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Crynodeb o'r canfyddiadau	4
Atodiad: Canfyddiadau'r adolygiad o'r cofnodion dalfa	32
Demograffeg.....	32
Dalfeydd	33
Amser cyrraedd y ddalfa.....	34
Darpariaethau yn y ddalfa	37
Unigolion benywaidd yn y ddalfa	39
Hylendid	40
Hawliau a hawlogaethau	41
Lefel arsylwi	44
Gwasanaethau cymorth	45
Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol	46
Defnyddio grym	47
Noeth-chwiliad	49
Iechyd meddwl, oedolion priodol a mathau eraill o fregusrwydd.....	50
Plant yn y ddalfa.....	52
Coch Melyn Gwyrdd	53

Cyflwyniad

Mae tarddiad, diben a rhesymeg Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa (CISP) i'w gweld yng nghylch gorchwyl y panel, sydd ar gael ar wefan [Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau](#). Mae Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn cynnal gwaith craffu annibynnol ar gofnodion ac arferion cyfnodau yn y ddalfa, gan gynnig sicrwydd i'r cyhoedd y caiff unigolion a gedwir yn y ddalfa eu trin yn deg, yn gyfreithlon a chydag urddas tra byddant yn y ddalfa.

Fel rhan o ymagwedd gylchol y panel tuag at waith craffu, o bryd i'w gilydd bydd aelodau'n ailymweld â themâu a adolygwyd yn flaenorol i asesu a yw'r dysgu a nodwyd wedi'i ymgorffori ac a yw'r gwelliannau wedi'u cynnal. Ar 25 Mehefin 2026, canolbwyntiodd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa ar ddefnyddio grym o fewn lleoliadau dalfa. Dewiswyd y pwnc hwn oherwydd ei bwysigrwydd sylweddol o ran sicrhau y caiff hawliau, lles a diogelwch unigolion a gedwir yn y ddalfa eu diogelu wrth alluogi staff y ddalfa i reoli risg yn effeithiol a chynnal diogelwch o fewn amgylcheddau'r ddalfa.

Mae defnyddio grym yn y ddalfa yn berthnasol i'r cydblethiad rhwng hawliau dynol, diogelu, atebolrwydd a hyder y cyhoedd mewn plismona. Rhaid i unrhyw rym a ddefnyddir yn erbyn unigolyn a gedwir yn y ddalfa fod yn gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn rhesymol ac yn gymesur â'r amgylchiadau. Dylid defnyddio grym fel dewis olaf yn unig ar ôl ystyried neu geisio defnyddio opsiynau eraill, gan gynnwys technegau cyfathrebu a dad-ddwysáu. Mae'r gofyniad bod unrhyw ddefnydd o rym yn cael ei gofnodi'n briodol, ei gyfiawnhau a'i oruchwyllo'n effeithiol yr un mor bwysig.

Wrth baratoi ar gyfer y gweithgarwch craffu hwn, cafodd aelodau'r panel eu hatgoffa o'r canfyddiadau o adolygiadau blaenorol o ddefnyddio grym yn y ddalfa. Yn hanesyddol, canfu'r panel y caiff grym ei ddefnyddio'n gyfreithlon ac mewn ffordd gymesur yn gyffredinol, gyda staff y ddalfa yn dangos gallu da i wneud penderfyniadau a ffocws clir ar ddiogelu unigolion a gedwir yn y ddalfa a staff. Nododd y panel hefyd enghreifftiau o ddad-ddwysáu effeithiol, gwaith monitro lles priodol ar ôl digwyddiadau, a diwylliant cadarnhaol yn y ddalfa sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu a gofal.

Er bod gweithgarwch craffu blaenorol wedi tynnu sylw at nifer o arferion cadarnhaol, nodwyd meysydd i'w gwella hefyd a oedd yn codi dro ar ôl tro. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf ag ansawdd a chysondeb y gwaith cofnodi, gan gynnwys manylion annigonol yng nghofnodion y ddalfa ynghylch y math o rym a ddefnyddiwyd, y rhesymeg dros ei ddefnyddio, hyd y digwyddiadau, a'r ymdrechion i dad-ddwysáu cyn defnyddio grym. Canfu adolygiadau blaenorol hefyd nad oedd nodweddion agored i niwed, gan gynnwys ystyriaethau o ran iechyd meddwl a ffactorau risg eraill, bob amser wedi'u cysylltu'n glir â'r penderfyniad a wnaed yn y cofnod ei hun. O ganlyniad, ceisiodd y panel archwilio a wnaed gwelliannau yn y meysydd hyn ac a oedd y dysgu a nodwyd trwy waith craffu cynharach wedi'i ymgorffori yn arferion cadw yn y ddalfa. Am ragor o fanylion am adroddiad y llynedd, gallwch weld y cofnod yma.

Ar gyfer yr adolygiad hwn, darparwyd cyfres o gofnodion dalfa i aelodau'r panel lle defnyddiwyd grym yn ystod y cyfnod yn y ddalfa. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a oedd y grym a ddefnyddiwyd yn ymddangos yn angenrheidiol, yn gymesur ac wedi'i gyfiawnhau'n briodol, a oedd nodweddion agored i niwed yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi'u hystyried yn ddigonol, ac a oedd yr wybodaeth a gofnodwyd yn ddigonol i alluogi gwaith craffu ystyrlon. Cafodd yr aelodau hefyd eu hatgoffa bod y ffurflenni defnyddio grym a gaiff eu cwblhau gan swyddogion yn cael eu cadw ar Niche (cronfa ddata'r heddlu) ac nad ydynt yn rhan o'r cofnod dalfa ei hun. Felly, roedd asesiad y panel yn canolbwyntio ar y canlynol:

- 1) A oedd cofnod y ddalfa yn dogfennu'n glir y cafodd grym ei ddefnyddio
- 2) Pa fath o rym a ddefnyddiwyd
- 3) Y rhesymau pam ei fod yn angenrheidiol
- 4) Y swyddogion dan sylw a chanlyniad y digwyddiad

Mae'r canfyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli arsylwadau aelodau Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn dilyn eu hadolygiad o'r cofnodion dalfa a ddewiswyd. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at enghreifftiau o arferion cadarnhaol, yn nodi cyfleoedd i wella, ac yn ceisio cefnogi dysgu a datblygiad parhaus o fewn Gwasanaethau Dalfa Heddlu Dyfed-Powys:

Cod QR:
llenwi



Dolen: Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa (25/06/2026): Defnyddio grym yn y ddalfa – Ffurflen i'w

Crynodeb o'r canfyddiadau

Isod mae crynodeb o rai o ganfyddiadau'r panel:

Pwyntiau cadarnhaol:

Defnyddio grym

- Canfu'r panel dystiolaeth y caiff grym ei ddefnyddio'n gyffredinol mewn ymateb i risgiau adnabyddadwy, gan gynnwys trais, ymddygiad ymosodol, hunan-niweidio a meddwdod sylweddol.
- Mae'r heddlu wedi arddangos trefniadau goruchwyllo mewnol cadarn, gan gynnwys archwilio digwyddiadau lle defnyddiwyd grym a nodi cyfleoedd i ddysgu.

Rheoli risg

- Roedd y lefelau arsylwi wedi'u gosod yn briodol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac yn cael eu dilyn gydol y cyfnod yn y ddalfa.
- Roedd enghreifftiau o ddad-ddwysáu, technegau tynnu sylw ac ymgysylltiad amlasiantaeth yn amlwg mewn sawl cofnod.

Diogelu

- Nodwyd enghreifftiau da o ddiogelu, monitro lles a rheoli bregusrwydd.
- Dangosodd staff y ddalfa eu bod yn rhoi ystyriaeth i iechyd meddwl, anghenion meddygol a gofynion diogelu unigolion a gedwir yn y ddalfa.
- Roedd atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu hystyried yn rheolaidd lle bo'n briodol.

Unigolion benywaidd yn y ddalfa

-
- Roedd swyddogion benywaidd yn cael eu neilltuo i unigolion benywaidd yn y ddalfa yn rheolaidd a chynigiwyd darpariaethau perthnasol rhywedd-benodol.

Meysydd i'w gwella:

Cofnodi'r defnydd o rym

- Dylai'r defnydd o rym gael ei gofnodi'n gliriach ac yn fwy cyson mewn cofnodion dalfa, gan gynnwys y math o rym a ddefnyddiwyd, y rhesymeg, yr amseriad a'r canlyniadau.
- Mae angen mwy o gysondeb rhwng cofnodion dalfa ac adolygiadau arolygwyr er mwyn sicrhau llwybr archwilio cywir a dibynadwy.
- Lle defnyddir grym, dylid cofnodi digon o fanylion i alluogi gwaith craffu annibynnol effeithiol heb ddibynnu ar systemau atodol.

Noeth-chwiliad

- Byddai cofnodion noeth-chwiliad yn elwa o resymeg fanylach yn egluro'r angen am y chwiliad a'i gymesuredd.
- Dylai cofnodion ddogfennu'n gyson pryd y rhoddir gwybod i unigolion a gedwir yn y ddalfa fod y teledu cylch cyfyng wedi'i guddio, ei ddiffodd neu'n cael ei reoli fel arall yn ystod noeth-chwiliadau.

Cofnodi cofnodion lefel arsylwi

- Dylid cofnodi cofnodion lefel arsylwi mewn modd sy'n osgoi amwysedd ac sy'n gwahaniaethu'n glir rhwng lefelau arsylwi a mathau o gynlluniau gofal.

Oedolion priodol

- Dylid dogfennu'n glir y broses o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag oedolion priodol pan fo'r asesiadau cychwynnol yn newid yn ystod y cyfnod yn y ddalfa.

Oedi wrth aros am wasanaethau allanol

- Byddai gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol ynghylch oedi yn ymwneud â chynrychiolwyr cyfreithiol, oedolion priodol a gwasanaethau allanol eraill yn cryfhau tryloywder ymhellach.

Arsylwadau'r panel

Cynhyrchwyd sylwadau'r heddlu gan arolygydd Gwasanaethau Dalfa Heddlu Dyfed-Powys.

Thema	Sylwadau	Ymateb yr heddlu
Lefel arsylwi	Nododd un aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa nad oedd y gwaith o gofnodi lefelau arsylwi a chynlluniau gofal bob amser yn glir nac yn gyson yn nghofnod y ddalfa. Mewn sawl achos, roedd yn ymddangos bod cofnodion yn cyfeirio at wahanol lefelau arsylwi ar yr un pryd, neu'n disgrifio arferion arsylwi nad oeddent yn amlwg yn cyfateb i'r lefel a gofnodwyd. Roedd hyn yn creu amwysedd o ran statws arsylwi gwirioneddol yr unigolyn yn y ddalfa, ac roedd yn anodd penderfynu a oedd lefel y gwaith monitro wedi'i dogfennu'n gywir a'i chymhwyso'n gyson. O ystyried bod cofnodi lefelau arsylwi yn glir ac yn gyson yn hanfodol er mwyn sicrhau llwybr archwilio cywir a'r gallu i reoli risg yn effeithiol, a allech chi roi rhywfaint o eglurder ar y cofnodion y cyfeirir atynt yn yr achos hwn? Gan gyfeirio at yr un cofnod, nododd yr aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa nad yw'r cofnod dalfa yn nodi'n glir a ddefnyddiwyd grym yn ystod y cyfnod yn y ddalfa neu a ddefnyddiwyd gefynnau wrth arestio	<i>Adolygwyd y cofnod dalfa ac rwy'n deall ble mae'r dryswch wedi codi i aelod y panel adolygu. Yng nghymeradwyaeth cynllun gofal y swyddog dalfa cyntaf, nodwyd y "math" o gynllun gofal fel "L4". Mae'r adran "math" yn bodoli er mwyn caniatáu i swyddogion y ddalfa nodi'r rheswm dros y cynllun gofal, megis cyfnod trosglwyddo, yn dilyn cyfweliad, asesiad addasrwydd i ryddhau, ac ati. Ar yr achlysur hwn, fel y nodwyd, mae swyddog y ddalfa wedi cymeradwyo'r adran honno gyda'r lefel arsylwi gychwynnol a osodwyd yn wreiddiol, sef L4. Yn anffodus, cwblhaodd yr un swyddog dalfa bum cynllun gofal arall cyn y cyfnod trosglwyddo ac ni newidiwyd y "math", er bod y lefelau arsylwi yn amlwg wedi newid. Newidiodd y "math" wedyn yn dilyn y cyfnod trosglwyddo, lle cymeradwyodd y swyddog dalfa newydd y "math" fel "trosglwyddo".</i> <i>Fodd bynnag, ar ôl adolygu'r cofnod yn y ddalfa yn llawn, gall y Gwasanaethau Dalfa roi sicrwydd bod y lefelau arsylwi wedi'u dilyn gydol y cyfnod.</i>

	yn unig a’u bod wedi’u tynnu yn y ddalfa wedi hynny. At hynny, nid oes unrhyw amser wedi’i gofnodi ar gyfer pryd y tynnwyd y gefynnau, gyda'r maes yn nodi am 01:22 BST "Os defnyddiwyd gefynnau, yr amser y tynnwyd y gefynnau:", sydd wedi'i adael yn wag. Mae hyn yn cyfyngu ar y llwybr archwilio ac yn ei gwneud yn anodd pennu graddfa a hyd unrhyw ddefnydd o rym.	<i>O ran arsylwad yr aelod panel ynghylch defnyddio grym, mae'r asesiad risg yn tynnu sylw at hyn yn glir. Mae'r cwestiwn "A ddefnyddiwyd grym tra yn y ddalfa?" yn cael ei ateb drwy ddefnyddio'r opsiwn "gefynnau" ar y gwymplen. Mae'r asesiad risg yn cofnodi bod gefynnau a thechnegau llaw agored wedi'u defnyddio cyn y cyfnod yn y ddalfa a gefynnau wedi'u defnyddio yn y ddalfa.</i> <i>Mae'r cwestiwn "Os defnyddiwyd gefynnau, yr amser y tynnwyd y gefynnau:" wedi'i adael yn wag gan na ddewiswyd gefynnau o'r gwymplen mewn gwirionedd, gyda dim ond "technegau llaw agored" ac "arall" yn cael eu dewis. Os na ddewisir "gefynnau" yn y gwymplen, yna ni fydd y blwch uchod yn ymddangos ar Niche ar gyfer mewnbynnu amser. Dylid bod wedi dewis gefynnau o ystyried bod y manylion a ddarparwyd yn yr asesiad risg yn nodi "CAFODD YR UNIGOLYN A GADWYD YN Y DDALFA EI ROI MEWN GEFYNNAU WRTH GAEL EI ARESTIO A DEFNYDDIWDYD TECHNEG AU YMARFEROL".</i> <i>Er bod yr heddlu’n fodlon bod yr unigolyn hwn a gadwyd yn y ddalfa wedi cael gofal addas a bod y lefelau</i>
--	--	---

		<i>arsylwi wedi'u dilyn gydol y cyfnod yn y ddalfa, mae dysgu i'w wneud. Yn gyntaf, rhaid i swyddogion y ddalfa sicrhau bod y "math" o gynllun gofal yn cael ei ddiwygio er mwyn osgoi dryswch rhwng hynny a'r lefel arsylwi a bennwyd. Yn ail, mae angen sicrhau bod y math/au cywir o rym yn cael eu dewis o'r gwymplen i sicrhau bod meysydd ychwanegol yn ymddangos yn ôl yr angen.</i> <i>Bydd adborth yn cael ei roi i'r swyddog dalfa dan sylw.</i>
Defnyddio grym	Nododd un aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa y nodwyd yng nghofnod y ddalfa bod rhingyll a chwnstabl wedi mynd i mewn i'r gell ac wedi tynnu trowsus yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Fodd bynnag, nid yw'r cofnod yn nodi a ddefnyddiwyd unrhyw rym yn ystod yr ymyriad hwn, ac nid yw'n darparu digon o fanylion ynghylch sut y tynnwyd y dilledyn. I'r gwrthwyneb, roedd cofnodion adolygu'r arolygydd yn nodi na ddefnyddiwyd unrhyw rym yn y ddalfa. Mae'r diffyg manylder ymddangosiadol hwn yn ei gwneud yn anodd sefydlu llwybr archwilio clir o amgylchiadau'r digwyddiad. Cwestiwn i'r heddlu: <i>A all yr heddlu egluro a ddefnyddiwyd unrhyw rym yn</i>	<i>Adolygwyd y cofnod dalfa a gall y Gwasanaethau Dalfa gadarnhau bod grym wedi'i ddefnyddio yn y ddalfa. Mae'r ateb i'r cwestiwn "A ddefnyddiwyd grym tra yn y ddalfa?" yn cael ei ateb gydag "arall – gweler y cofnod" o'r ddewislen yn y gwymplen. Cofnododd y cynllun gofal cyntaf ddogfennau yn nodi bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi meddwi'n drwm, yn ymddwyn yn rhwystrol, ac wedi ceisio clymu ei drywsus o amgylch ei wddf pan gafodd ei roi yn y gell. Cafodd y trywsus ei dynnu gan ddefnyddio grym rhesymol gan swyddog y ddalfa a swyddog y ddalfa a thywys, a aeth i mewn i'r gell.</i> <i>Fodd bynnag, cytunir y byddai ychydig mwy o wybodaeth ynghylch sut y tynnwyd yr eitem o fudd at ddibenion</i>

	<i>ystod yr ymyriad hwn ac, os na, a yw cofnod y ddalfa yn cynnwys digon o fanylion i esbonio'r camau a gymerwyd a'u cysoni ag adolygiad yr arolygydd yn datgan na ddefnyddiwyd unrhyw rym yn y ddalfa?</i> Yn ychwanegol i'r cofnod uchod, roedd saith cofnod ychwanegol lle canfu Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa y canlynol: - Nid oedd yn glir a oedd grym wedi'i ddefnyddio yn y ddalfa a, lle gallai grym fod wedi'i ddefnyddio, ni ellid pennu'n rhwydd o'r cofnod y math penodol o rym a ddefnyddiwyd. - Mewn dau o'r achosion hyn, roedd cofnodion y ddalfa yn ymddangos yn anghyson ag adolygiadau'r arolygydd, a oedd yn nodi nad oedd unrhyw rym wedi'i ddefnyddio ar yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. - Er y cofnodwyd ychydig o resymeg dros y camau a gymerwyd, roedd yr aelod o'r farn nad oedd y cofnod yn ddigon eglur a thryloyw i ddarparu llwybr archwilio clir	<i>archwilio. Bydd adborth yn cael ei roi i swyddog y ddalfa.</i> <i>Mae'r adolygiad PACE a gwblhawyd gan yr arolygydd yn nodi NA ddefnyddiwyd UNRHYW rym yn y ddalfa, sy'n anghywir. Diofalwch ar ran yr arolygydd o dan sylw yw hyn a bydd adborth yn cael ei ddarparu.</i> <i>Mewn perthynas â'r ddau gofnod dalfa cyntaf a nodwyd lle'r oedd yn anodd canfod a ddefnyddiwyd grym yn y ddalfa ai peidio:</i> - <i>Mae'r heddlu eisoes wedi mynd i'r afael â'r cofnod dalfa cyntaf oherwydd y cofnodi gwael – roedd sawl achos ar wahân o ddefnyddio grym yn y ddalfa ond ni chafodd yr un ohonynt eu hadlewyrchu yng nghofnod y ddalfa. Mae adborth eisoes wedi'i roi i bob swyddog dalfa o dan sylw, ac mae POB swyddog o dan sylw wedi cyflwyno ffurflenni defnyddio grym fel sy'n ofynnol.</i> - <i>Mae'r ail gofnod dalfa yn darparu digon o wybodaeth ynghylch defnyddio grym yn y ddalfa ac ymddengys mai diofalwch ar ran yr aelod o'r panel adolygu yw hyn.</i>
--	--	--

	o ddigwyddiadau a'r broses gwneud penderfyniadau. <i>Cwestiwn i'r heddlu: A all yr heddlu roi sicrwydd bod cofnodi digwyddiadau lle defnyddiwyd grym yn y ddalfa yn ddigon clir, manwl a chyson i alluogi gwaith craffu effeithiol, yn enwedig pan fo'r hyn a gofnodir yng nghofnodion y ddalfa yn ymddangos yn wahanol i adolygiadau'r arolygydd sy'n nodi na ddefnyddiwyd unrhyw rym? Yn ogystal, pa fesurau sydd ar waith i sicrhau bod y rhesymeg dros ymyriadau ac unrhyw ddefnydd o rym yn cael ei dogfennu'n dryloyw?</i> Nododd pedwar aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa anhawster o ran dod o hyd i gofnod dalfa clir yn cofnodi'r defnydd o rym, er gwaethaf y ffaith bod y cofnod wedi'i ddewis fel rhan o ymarfer craffu ar ddefnyddio grym. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu'r aelodau i benderfynu pa fath o rym a ddefnyddiwyd, pryd y digwyddodd, a'r rhesymeg dros ei ddefnyddio. <i>Cwestiwn i'r heddlu: A all yr heddlu roi sicrwydd bod pob digwyddiad defnyddio grym sy'n digwydd yn y ddalfa yn cael ei gofnodi'n briodol yng</i>	<i>Mae'r asesiad risg yn dangos tystiolaeth o "dechnegau llaw agored" fel defnydd o rym yn y ddalfa oherwydd ymddygiad ymosodol yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Cafodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ei hebrwng yn syth i'r gell, a chynhaliwyd gweithdrefn gell.</i> <i>Mewn perthynas â'r ddau gofnod dalfa lle mae adolygiadau'r arolygydd yn anghyson â'r cofnod ei hun:</i> - <i>Gwiriwyd y ddau gofnod. Mae cofnod y ddalfa yn dogfennu y defnyddiwyd grym yn y ddalfa, ond mae'r arolygwyr ar y ddau achlysur yn nodi "dim" defnydd o rym yn eu hadolygiadau PACE. Diofalwch ar ran yr arolygydd yw hyn a bydd adborth yn cael ei ddarparu.</i> <i>Mewn perthynas â'r cofnod dalfa a nodwyd ei fod yn aneglur gan yr aelod panel:</i> - <i>Adolygwyd y cofnod dalfa, ac mae'r Gwasanaethau Dalfa o'r farn bod digon o wybodaeth wedi'i chofnodi i</i>
--	--	--

	<i>nghofnodion y ddalfa ac egluro pam na ellid nodi cofnodion defnyddio grym yn rhwydd yn yr achosion hyn?</i>	<i>amlinellu pa rym a ddefnyddiwyd a'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad hwnnw. Mae'r cynllun gofal yn cofnodi bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn ymddwyn yn ymosodol ac yn fygythiol a'i fod wedi'i hebrwng yn syth i'r gell. Yna lapiodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ddilledyn o amgylch ei wddf a oedd angen grym i'w dynnu. Fel yr eglurwyd i aelodau'r panel, nid yw Heddlu Dyfed-Powys yn disgwyl i'r cofnodion yng nghofnodion y ddalfa fod yn andros o drylwyr gan y caiff y defnydd o rym ei gofnodi yn y ffurflenni "defnyddio grym" a gwblheir gan yr holl swyddogion dan sylw. Mae cofnod y ddalfa yn ychwanegol i'r ffurflenni hynny.</i> <i>Mewn ateb i'r cwestiwn ynghylch sicrwydd y cofnodir y defnydd o rym yn ddigon manwl a bod unrhyw resymeg wedi'i dogfennu'n dryloyw, mae gan yr heddlu fesurau sicrhau ansawdd trylwyr ar waith eisoes ac mae defnyddio grym yn y ddalfa yn faes allweddol y craffir arno'n fisol. Ar</i>
--	---	--

		<i>hyn o bryd, mae'r heddlu'n archwilio 100% o'r achosion lle defnyddir grym yn y ddalfa, sy'n cynnwys cynnal adolygiad llawn o gofnod y ddalfa, lawrlwytho ac adolygu lluniau teledu cylch cyfyng ar gyfer y digwyddiad hwnnw, a nodi unrhyw wersi a nodwyd ac ymdrin â hwy yn ystod cyfarfodydd perfformiad misol y ddalfa.</i>
Noeth-chwiliad	Nododd aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa a oedd yn adolygu'r cofnod na allai nodi'n glir o gofnod y ddalfa'r rhesymeg dros gynnal noeth-chwiliad ar yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Er y cofnodwyd y noeth-chwiliad, nid oedd sail y chwiliad a'r penderfyniadau dros gynnal y chwiliad wedi'i nodi'n ddigon manwl i alluogi'r aelod i ddeall pam yr ystyriwyd bod y chwiliad yn angenrheidiol ac yn gymesur â'r amgylchiadau. Cwestiwn i'r heddlu: <i>A all yr heddlu egluro'r rhesymeg dros gynnal noeth-chwiliad ar yr unigolyn hwn a gadwyd yn y ddalfa?</i> Ym mhob un o'r pedwar cofnod, roedd yn anhysbys neu'n aneglur a oedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi'i hysbysu bod y teledu cylch cyfyng	<i>Adolygwyd cofnod y ddalfa. Mae'r noeth-chwiliad wedi'i gofnodi'n gywir yn adran "chwiliadau" o'r cofnod dalfa, ac mae cofnod "chwilio" cadw yn y ddalfa ychwanegol sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol. Mae'r rhesymeg a ddarparwyd yn canolbwyntio ar ymddygiad yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, ei sylwadau gweithredol ynghylch hunan-niweidio/hunanladdiad, a marcwyr rhybuddio ar gyfer hunanladdiad a chyffuriau. Er yr ystyrir bod y noeth-chwiliad yn angenrheidiol i atal risg/niwed i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa neu bobl eraill, mae'r Gwasanaethau Dalfa yn cytuno â'r sylw nad yw'r rhesymeg a roddir yn ddigon manwl i ddeall y rhesymeg yn llawn. Gellid bod wedi cynnwys gwybodaeth ychwanegol megis gwybodaeth gan y swyddogion arestio/trosglwyddo, y cyd-destun o</i>

	naill ai wedi'i guddio neu wedi'i ddiffodd at ddibenion y chwiliad. Cwestiwn i'r heddlu: <i>A all yr heddlu roi sicrwydd bod yr wybodaeth hon yn cael ei chyfleu'n rheolaidd ac egluro sut y caiff cydymffurfedd ei gofnodi?</i>	<i>ran y digwyddiadau a arweiniodd at osod y marcwyr rhybuddio ar y unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, ac ati.</i> <i>Bydd adborth yn cael ei roi i'r swyddog dalfa dan sylw. Er mwyn darparu sicrwydd, mae'r Gwasanaethau Dalfa wedi cynyddu maint y sampl o noeth-chwiliadau yn ddiweddar i sicrhau craffu ychwanegol yn y maes hwn.</i> <i>Mewn perthynas â'r pedwar cofnod a nodwyd i fod yn aneglur o ran a oedd y teledu cylch cyfyng wedi'i guddio neu wedi'i ddiffodd:</i> - <i>Nid noeth-chwiliad oedd y cofnod cyntaf, ond cyfnewidiad dillad Davies v Heddlu Glannau Mersi, ac felly nid yw'r gofyniad teledu cylch cyfyng yn berthnasol.</i> - <i>Chwiliad-noeth oedd yr ail gofnod. Mae'r agwedd teledu cylch cyfyng wedi'i chynnwys yn y rhesymeg ond nid yw'n nodi bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cael ei hysbysu.</i> - <i>Noeth-chwiliad oedd y trydydd. Mae'r rhesymeg yn cynnwys nodyn o'r ffaith fod y teledu cylch cyfyng wedi'i ddiffodd er mwyn diogelu</i>
--	--	--

		<i>urddas yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, ond nid yw'n nodi bod yr unigolyn wedi cael ei hysbysu.</i> - <i>Cynhaliwyd y pedwerydd cofnod yn Dafen, sydd ag ystafell noeth-chwiliad bwrpasol heb gamera cylch cyfyng, ond dewisodd y swyddog dalfa gynnal y chwiliad mewn cell. Mae'r swyddog dalfa yn darparu rhesymeg dros y penderfyniad hwn yn seiliedig ar ba mor ymosodol oedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, a oedd yn bygwth y swyddogion, ac felly teimlai'r swyddog dalfa nad oedd yr ystafell chwilio yn addas. Roedd angen teledu cylch cyfyng er mwyn sicrhau diogelwch pawb. Mae'r Coleg Plismona yn derbyn y gellir defnyddio teledu cylch cyfyng os darperir rhesymeg addas.</i> <i>Dylid cofnodi'r ffaith bod unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael eu hysbysu bod teledu cylch cyfyng yn cael ei guddio neu ei ddiffodd fel rhan o'r rhesymeg neu mewn cofnod cadw yn y ddalfa ar wahân. Er bod yr holl resymeg yn cynnwys gwybodaeth ynghylch cuddio neu ddiffodd y teledu</i>
--	--	--

		<i>cylch cyfyng, nid yw'r ffaith bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael ei hysbysu o hynny wedi'i chynnwys bob amser. Mae hwn yn faes y bydd yr heddlu yn ceisio ei fonitro'n fanwl a mynd i'r afael ag ef.</i> <i>Er mwyn tawelu meddyliau aelodau'r panel, mae'r Gwasanaethau Dalfa wedi nodi ystafelloedd/celloedd dynodedig ym mhob dalfa yn ddiweddar a fydd yn cael eu defnyddio fel ystafelloedd chwilio dynodedig. Bydd pob un o'r ystafelloedd hyn naill ai heb system teledu cylch cyfyng o gwbl, neu â system teledu cylch cyfyng y gellir ei rheoli sy'n caniatáu i'r teledu cylch cyfyng gael ei ddiffodd yn llwyr ar gyfer yr ystafell honno tra bydd y chwiliad yn cael ei gynnal. Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw noeth-chwiliadau yn cael eu ffilmio er mwyn diogelu urddas y sawl a gedwir yn y ddalfa. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhellion diweddar Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.</i>
Oedolyn priodol	Nododd un aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa bryderon ynghylch cyfranogiad oedolyn priodol. Mae cofnod y ddalfa yn dangos bod yr heddlu wedi nodi'r angen am oedolyn priodol yn wreiddiol; fodd bynnag, yn ystod y cyfnod trosglwyddo, hysbyswyd rhingyll y ddalfa nad oedd angen oedolyn priodol ar gyfer proses	<i>Adolygwyd y cofnod dalfa ond, yn gyntaf, byddaf yn mynd i'r afael â'r gofyniad am oedolyn priodol yn gyffredinol. Mae'r gofyniad am oedolyn priodol yn seiliedig ar asesiad o allu'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa i ddeall beth sy'n digwydd, prosesau'r ddalfa, ac ati. Nid yw'r ffaith bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn cael</i>

	y ddalfa. Wedi hynny, cyhuddwyd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa a chafodd ei anfon yn syth i'r llys heb bresenoldeb oedolyn priodol. Nid oedd yr aelod yn gallu pennu o'r cofnod sut yr aseswyd dealltwriaeth yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa o'r broses na pharesymeg oedd yn sail i'r penderfyniad nad oedd angen oedolyn priodol arno mwyach. Nododd yr aelod ymhellach fod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi'i gofnodi i fod ag anhwylder deubegynnol, iselder, a sawl cyflwr ieched corfforol, gan gynnwys llid y cymalau. O ystyried y nodweddion agored i niwed cofnodedig hyn, nid oedd y rhesymeg a'r broses benderfynu a oedd yn ymwneud â darparu oedolyn priodol yn ddigon clir yng nghofnod y ddalfa. Cwestiwn i'r heddlu: <i>A all yr heddlu egluro'r rhesymeg dros benderfynu nad oedd angen oedolyn priodol mwyach ar ôl iddo gael ei nodi'n angenrheidiol yn wreiddiol? Yn ogystal, pa sicrwydd y gellir ei roi bod dealltwriaeth yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa o broses y ddalfa a'r broses gyhuddo wedi'i hasesu a'i chefnogi'n briodol, yn enwedig yng ngoleuni'r nodweddion agored i niwed a gofnodwyd yng nghofnod y ddalfa?</i>	<i>diagnosis o bryder ieched meddwl parhaus, fel iselder, yn golygu o reidrwydd nad yw'r galluedd ganddo. Yn ogystal, nodaf fod aelod y panel yn dogfennu pryderon ieched corfforol, ond nid oes unrhyw gydberthynas rhwng pryderon ieched corfforol a galluedd unigolyn a gedwir yn y ddalfa, ac felly anaml iawn y maent yn effeithio ar y gofyniad am oedolyn priodol.</i> <i>Gan ganolbwyntio ar yr unigolyn yn y cofnod dalfa hwn, mae'r asesiad risg yn dogfennu diagnosis o anhwylder deubegynnol ac iselder, ac mae'r swyddog dalfa gwreiddiol yn awgrymu y dylid ystyried oedolyn priodol. Fodd bynnag, roedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn feddw iawn, yn ddig, ac yn anghydweithredol pan gyrhaeddodd. Felly, ni ellid cyflwyno ei hawliau a'i hawlogaethau iddo, ac ni ellid gwneud cais am oedolyn priodol nes bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn sobr fel y gellid rhoi ei hawliau iddo. Byddai angen cwblhau hyn ar ôl cyfnod o orffwys digonol ac wedi trosglwyddo i swyddog dalfa'r bore. Nid oedd adolygiad gan weithiwr gofal ieched proffesiynol yn bosibl chwaith oherwydd meddwdod ac ymddygiad yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Y drosedd yr oedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi'i arestio</i>
--	---	--

		amdan i oedd torri Gorchymyn Diogelu rhag Trais Domestig. Nid oes angen cynnal cyfweliad ar gyfer y drosedd hon ac nid oes rhaid iddi gael ei phrosesu, ac felly ni chafodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ei gyhuddo. Mae torri Gorchymyn Diogelu rhag Trais Domestig yn gofyn am arestio a chludo'r unigolyn i'r sesiwn llys nesaf sydd ar gael. Dim ond at ddibenion hawliau a hawlogaethau y byddai angen oedolyn priodol. Wedi i'r achos gael ei drosglwyddo i swyddog dalfa'r bore, cwblhawyd cofnod "trosglwyddo" cadw yn y ddalfa, sy'n dogfennu bod y swyddog dalfa wedi siarad â'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wrth y ddesg a bod ei hawliau a'i hawlogaethau wedi'u cyflwyno iddo ac yntau bellach wedi tawelu. Adolygwyd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol hefyd, a daethpwyd i'r casgliad ei fod yn addas i gael ei drosglwyddo, nad oedd yn brin o alluedd, ac nad oedd angen oedolyn priodol ar gyfer prosesau'r ddalfa. Cyn i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gael ei gludo i'r llys, trefnwyd cyfreithiwr ar ei gyfer a byddai'n mynychu'r llys i ddarparu cynrychiolaeth gyfreithiol. Yn seiliedig ar yr uchod, mae'r Gwasanaethau Dalfa yn cytuno nad
--	--	--

		<i>oedd angen oedolyn priodol ar yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Mae cofnod y ddalfa yn dangos tystiolaeth bod oedolyn priodol wedi'i ystyried, ond roedd yn anodd i'r swyddog dalfa gwreiddiol asesu'n ddigonol yr angen am oedolyn priodol oherwydd lefel meddwdod ac ymddygiad gwyllt yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Fodd bynnag, unwaith yr oedd yn sobr, cafodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ei adolygu gan swyddog bore'r ddalfa a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, ac roedd y ddau yn cytuno nad oedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa heb alluedd ac nad oedd angen oedolyn priodol ar gyfer y prosesau cadw, a oedd ond yn cynnwys dealltwriaeth o hawliau a hawlogaethau a bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn cael ei drosglwyddo i'r llys am dorri Gorchymyn Diogelu rhag Trais Domestig.</i> <i>Fodd bynnag, rwy'n deall y pryder a godwyd gan yr aelod o'r panel o ystyried y nodweddion agored i niwed a nodwyd. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw diagnosis o un neu fwy o bryderon iechyd yn golygu o reidrwydd bod angen oedolyn priodol. Mae'r gofyniad am oedolyn priodol yn seiliedig ar allu unigolyn a gedwir yn y ddalfa i ddeall, nid yr hyn y mae wedi</i>
--	--	---

		<i>cael diagnosis ohono yn unig. Mae'r gofyniad am oedolyn priodol yn benderfyniad gwybodus a wneir gan y swyddog dalfa gyda chanllawiau meddygol gweithwyr gofal iechyd y ddalfa.</i>
Gwasanaethau cyfreithiol	Nododd dau aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa nad oedd cofnod y ddalfa yn darparu unrhyw esboniad am y cyfnod rhwng cais yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am gyngor cyfreithiol a dyfodiad y cyfreithiwr. Er bod yr amseroedd perthnasol wedi'u cofnodi, nid oedd unrhyw resymeg gysylltiedig i esbonio unrhyw oedi nac i ddangos pa gamau a gymerwyd i hwyluso mynediad amserol at gynrychiolaeth gyfreithiol. O ganlyniad, nid oedd yr aelod yn gallu deall yn iawn yr amgylchiadau a oedd wedi golygu eu bod wedi gorfod aros am gyngor cyfreithiol o'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cofnod. Cwestiwn i'r heddlu: <i>A all yr heddlu egluro a fu unrhyw oedi rhwng y cais am gyfreithiwr a dyfodiad y cyfreithiwr, ac, os felly, pam na chafodd hyn ei egluro yng nghofnod y ddalfa? Yn ogystal, pa fesurau sydd ar waith i sicrhau bod unrhyw oedi sylweddol a'r rhesymau drosto wedi'u dogfennu'n glir i gefnogi tryloywder a chraffu effeithiol?</i>	<i>Adolygwyd y cofnod dalfa cyntaf ac nid yw'r Gwasanaethau Dalfa yn cytuno ag arsylwad yr aelod panel y bu oedi rhwng cais yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am gyngor cyfreithiol a dyfodiad y cyfreithiwr. Gofynnwyd am gyfreithiwr am 3.20pm, mynychodd y cyfreithiwr y ddalfa yn brydlon, a chafodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ei gyfweld a'i ryddhau o'r ddalfa 2 awr a 40 munud yn ddiweddarach. Nid ystyrir hyn yn oedi rhwng y cais a'r dyfodiad. Fodd bynnag, rwy'n amau efallai fod yr aelod panel yn cyfeirio at amser cyrraedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa a chais am gynrychiolaeth gyfreithiol, neu bresenoldeb cynrychiolaeth gyfreithiol yn yr achos hwn? Y rheswm pam rwy'n amau hyn yw bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cyrraedd y ddalfa am 2.55am ond, fel y nodwyd, ni ofynnwyd am gyfreithiwr tan 3.20pm (12 awr 25 munud yn ddiweddarach). Fodd bynnag, mae'r swyddogion dalfa dan sylw yn darparu rhesymeg glir dros yr oedi hwn ac mae wedi'i dogfennu mewn cynlluniau gofal</i>

		manwl iawn gydol y cyfnod yn y ddalfa. Mae'r wyth cynllun gofal yn dogfennu bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cyrraedd yn feddw, wedi'i gythruddo drwyddo, wedi cael diagnosis o anhwylderau iechyd meddwl, ac yn gwneud ymdrechion gweithredol i hunan-niweidio neu ymosod ar swyddogion yr heddlu gydol y chwe/saith awr gyntaf o'i gyfnod yn y ddalfa. Oherwydd hyn, parhaodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa i gael ei arsylwi'n gorfforol agos ar Lefel 4 i sicrhau ei ddiogelwch. Ni ellid cwblhau ei hawliau a'i hawlogaethau oherwydd hyn, a byddai angen oedolyn priodol. Fodd bynnag, o ystyried ymddygiad yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, roedd ymgysylltu ag oedolyn priodol yn risg sylweddol a byddai'n anodd iawn. Unwaith iddo dawelu, ar ôl cyfnod sylweddol yn y ddalfa, cafodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ei adolygu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol a'i ystyried yn addas i gael ei gadw yn y ddalfa a'i gyfweld ond y byddai angen oedolyn priodol. Gofynnwyd am oedolyn priodol yn dilyn adolygiad gweithiwr gofal iechyd proffesiynol am 11.20am, ond mae cofnod cadw yn y ddalfa yn dangos, oherwydd problemau gyda'r rhai sy'n darparu oedolyn priodol, y byddai'r oedolyn priodol a oedd yn mynychu yn teithio i'r Drennewydd o
--	--	--

		<i>Sir Benfro. Ni ellid cwblhau unrhyw brosesau dalfa pellach nes i'r oedolyn priodol gyrraedd, ac nid oedd yr oedi hwn o fewn rheolaeth staff y ddalfa. Unwaith i'r oedolyn priodol gyrraedd, cwblhawyd yr holl brosesau dalfa o fewn cyfnod byr a rhyddhawyd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Mae'r Gwasanaethau Dalfa yn barnu na fu oedi rhwng y cais am gyfreithiwr a'i ddyfodiad, ac mae cofnod y ddalfa yn cynnwys llawer iawn o resymeg fanwl dros unrhyw oedi a fu i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn cael ei ryddhau.</i> <i>Adolygwyd yr ail gofnod dalfa ac, er bod oedi wedi bod rhwng y cais am gyfreithiwr ac ymgysylltiad y cyfreithiwr â'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, mae llawer iawn o wybodaeth wedi'i chynnwys yng nghofnod y ddalfa o ran cynlluniau gofal a chofnodion cadw yn y ddalfa sy'n darparu rhesymeg dros hyn. Cyrhaeddodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa y ddalfa am 8.22pm, ac mae'r cynllun gofal yn dogfennu bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn feddw, wedi'i gythruddo drwyddo, ac yn bygwth swyddogion. Er gwaethaf hyn, mae'r swyddog dalfa wedi cyflwyno ei hawliau a'i hawlogaethau iddo'n gynnar, a gofynnodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am</i>
--	--	--

		gyfreithiwr am 8.44pm. Hysbysodd y ddalfa'r cyfreithiwr o'r cais hwn am 9.19pm, ond nid oedd ymgysylltu â'r cyfreithiwr na chyfweliad yn bosibl ar y pryd oherwydd meddwdod ac ymddygiad yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Dros y chwe awr nesaf, gwaethygodd ymddygiad yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Gwnaed bygythiadau parhaus i swyddogion, achoswyd difrod i'r gell pan lanwodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa y gell â dŵr a throethi ar lawr y gell, a gwnaeth ymdrechion i niweidio'i hun a oedd yn gofyn am ymyrraeth gan swyddog ac ati. Yn y diwedd, aeth yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa i gysgu a chafodd ei fonitro ar ffurf gwiriadau deffro Lefel 2. Unwaith yr oedd wedi tawelu, am 5.15am, adolygwyd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol, a argymhellodd oedolyn priodol. Mynychodd yr oedolyn priodol yn brydlon am 7.57am ac ailgyflwynwyd ei hawliau a'i hawlogaethau gyda chymorth yr oedolyn priodol. Cafodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ei arestio ar amheuaeth o ymosodiad cyffredin a bod yn feddw ac afreolus, yna cafodd ei arestio ymhellach am achosi difrod troseddol yn y ddalfa. Gan na ddaeth cŵyn i law gan ddioddefwr yr ymosodiad, gellid cyhuddo'r unigolyn a gadwyd yn y
--	--	---

		<i>ddalfa heb ei gyfweld am fod yn feddw ac afreolus ac am achosi difrod troseddol, gan fod gan yr heddlu ddigon o dystiolaeth i brofi'r ddwy drosedd. Oherwydd hyn, ni fyddai'r cyfreithiwr yn mynychu'r ddalfa, ond cytunodd i roi cyngor dros y ffôn, a wnaed yn syth cyn i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gael ei gyhuddo a'i ryddhau o'r ddalfa am 8.25am. Os ydych yn canolbwyntio ar amser y cais a phresenoldeb y cyfreithiwr yn unig, mae oedi. Er gwaethaf hyn, mae'r Gwasanaethau Dalfa yn anghytuno nad yw'r cofnod dalfa hwn yn darparu rheswm digonol dros yr oedi. Fel y dangoswyd yn y sylwadau uchod, roedd cofnod y ddalfa yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth o fewn y cynlluniau gofal a'r cofnodion cadw yn y ddalfa fel y gellid deall yn llawn yr anawsterau a wynebwyd a'r penderfyniadau a wnaed, ac fel y gellid archwilio'r cofnod hwn heb anhawster.</i>
Cynnig bwyd a lluniaeth i unigolion a gedwir yn y ddalfa yn rheolaidd	Nododd un aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa fod cofnod y ddalfa yn dangos bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi'i ddal am oddeutu 9 awr a 48 munud, ond mai dim ond dwywaith y gellid nodi ei fod wedi cael cynnig diod yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd yr aelod o'r farn nad oedd y cofnod yn dangos yn glir y cafodd lluniaeth ei chynnig yn	<i>Mae'r adolygiad o gofnodion y ddalfa a'r Gwasanaethau Dalfa wedi nodi pedwar achlysur lle mae'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa naill ai wedi cael bwyd, diod neu'r ddau. Y tro cyntaf, yn fuan ar ôl cyrraedd, darparwyd cwpan o ddŵr i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Ar yr ail achlysur, ddwy awr yn ddiweddarach, darparwyd bwyd Pot Noodle a diod ffrwythau i'r</i>

	rheolaidd i'r unigolyn gydol ei gyfnod yn y ddalfa, a oedd yn ei gwneud yn anodd i asesu a roddwyd ystyriaeth i'w anghenion lles ac a oeddent wedi'u diwallu'n ddigonol. Nododd aelod arall o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa hefyd fod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa i bob golwg wedi bod yn cysgu am gyfnod sylweddol o'i amser yn y ddalfa, a gallai nodi un achlysur yn unig lle darparwyd bwyd a diod yn ystod oddeutu 16 awr yn y ddalfa. Er y gallai'r ffaith bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi bod yn cysgu fod wedi effeithio ar y cyfleoedd i ddarparu lluniaeth, roedd yr aelod o'r farn nad oedd cofnod y ddalfa yn dangos tystiolaeth glir y rhoddwyd ystyriaeth barhaus i anghenion lles yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa nag y darparwyd bwyd a diod iddo gydol ei gyfnod yn y ddalfa. Cwestiwn i'r heddlu: <i>A all yr heddlu roi sicrwydd bod unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael cynnig bwyd a diod ar adegau priodol gydol eu cyfnod yn y ddalfa a bod y cynigion hyn yn cael eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion y ddalfa? Yn ogystal, sut mae'r heddlu'n sicrhau bod anghenion lles unigolion a gedwir yn y ddalfa sy'n cysgu am gyfnodau hir yn cael eu monitro a'u</i>	<i>unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Ychydig ar ôl iddo orffen y bwyd Pot Noodle, gofynnodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am fisgedi a chawsant eu darparu. Ar y pedwerydd achlysur, 1 awr a 30 munud yn ddiweddarach, darparwyd cwpan o ddiod oren a chwpan o ddŵr i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. O fewn y cyfnod hwnnw o 3 awr a 27 munud, darparwyd pedair diod, pryd o fwyd a byrbryd i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Mae'r Gwasanaethau Dalfa yn ystyried bod hyn yn diwallu'r anghenion lles yn ddigonol, yn enwedig mewn perthynas â bwyd a diod. Mae'r aelod panel wedi gwneud arsylwad yn seiliedig ar gyfanswm yr amser yn y ddalfa a nifer y "cynigion" (gan nodi dim ond dau gynnig pan oedd mwy), heb ystyried unrhyw gyddestun ychwanegol. Er enghraifft, cyrhaeddodd yr unigolyn y ddalfa am 4.40pm yn feddw iawn, a pharhaodd i ymddwyn yn anwadal am y dair awr nesaf. O fewn y cyfnod hwnnw, mae'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi gwneud sawl ymgais i hunan-niweidio yn y gell drwy roi dillad o amgylch ei wddf, lle'r oedd rhaid i swyddog ymyrryd. Yn seiliedig ar hyn, roedd asesiad risg yn golygu na ellid darparu bwyd poeth neu ddiod i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, neu unrhyw eitemau ychwanegol a allai gael eu</i>
--	---	---

	<i>dogfennu i ddarparu llwybr archwilio clir?</i>	<i>difrodi neu eu defnyddio i niweidio, er mwyn sicrhau ei ddiogelwch. Fodd bynnag, unwaith yr oedd wedi tawelu, darparwyd y bwyd a'r ddiod uchod i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn rheolaidd. Cynhaliwyd gwiriadau rheolaidd ar yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, gyda lefel ei feddwod yn cael ei monitro, cyn cyflwyno datrysiad cymunedol oedolyn i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa pan oedd yn sobr, ac yna ei ryddhau.</i> <i>Adolygwyd yr ail gofnod dalfa. Nododd yr aelod panel fod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi bod yn cysgu am gyfnod sylweddol o'i amser yn y ddalfa, a fyddai wedi effeithio ar y ddarpariaeth o fwyd a diod, a'i fod wedi gallu nodi un achlysur yn unig pan gynigiwyd bwyd a diod iddo. Mae'r Gwasanaethau Dalfa wedi nodi pedwar achlysur pan gafodd bwyd a diod eu darparu i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Cynigiwyd dŵr iddo pan gyrhaeddodd ond fe'i gwrthodwyd. Cyrhaeddodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi'i gythruddo drwyddo ac yn ymddwyn yn ymosodol, ond yna gwaethygodd yr ymddygiad, gyda sawl ymgais i hunan-niweidio gan ddefnyddio dillad, a oedd yn gwneud darparu bwyd a diod, yn enwedig bwyd/diodydd poeth, ac eitemau ychwanegol yn anodd oherwydd y</i>
--	--	---

		risg. Yna cysgodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am wyth awr. Pan oedd yn effro, gofynnodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am gael gweld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac yna treuliodd y ddwy awr nesaf yn cael ei archwilio gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, yn cwblhau ei hawliau a'i hawlogaethau, a chael ei brosesu. Cynigiwyd bwyd a diod i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ar y pwynt hwn ond gwrthododd. Yna cysgodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am ddwy awr arall. Pan oedd yn effro, cynigiwyd bwyd a diod i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa a darparwyd te a bisgedi iddo. Yna cafodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ei gyfweld am 20 munud. Cafodd baned arall ar ôl y cyfweliad. Yna aeth yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn ôl i gysgu cyn cael ei gyhuddo a'i ryddhau. Yn ystod y cyfanswm o 16 awr yn y ddalfa, roedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn cysgu am ddeg awr, felly, o fewn y chwe awr a oedd yn weddill, cynigiwyd bwyd/diod i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ar bedwar achlysur. Gwrthododd y cynnig ddwywaith a derbyniodd y cynnig ddwywaith. Mae'r Gwasanaethau Dalfa o'r farn bod hyn yn rhoi ystyriaeth ddigonol i les o ran bwyd/diod.
--	--	---

		<i>Mewn perthynas â'r sylwadau uchod, a'r cwestiwn ychwanegol i'r heddlu ynghylch sicrwydd bod unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael cynnig bwyd a diod ar adegau priodol, a sut mae'r heddlu'n sicrhau bod anghenion lles unigolion a gedwir yn y ddalfa sy'n cysgu yn cael eu monitro a'u dogfennu, mae'r Gwasanaethau Dalfa yn credu y byddai'n fuddiol cael trafodaeth ag aelodau'r panel i ddeall eu disgwyliadau ac efallai rheoli'r disgwyliadau hynny.</i> <i>Yn y ddau arsylwad uchod, nid yw aelodau'r panel wedi gallu dod o hyd i bob achlysur lle cynigiwyd bwyd/diod, sydd wedi effeithio ar eu hasesiad o p'un a ddiwallwyd anghenion lles ai peidio. Yn ogystal, aseswyd cyfanswm yr amser yn y ddalfa yn erbyn nifer y cynigion am fwyd/diod, heb ystyried y cyd-destun megis ymddygiad, meddwdod, cyfnod cysgu, prosesau cadw yn y ddalfa, ac ati. Mae'r sylw yn awgrymu ystyried pa mor aml y dylid cynnig bwyd a diod i unigolion a gedwir yn y ddalfa drwy gymharu disgwyliadau yn erbyn patrymau bwyta ac yfed arferol, ac a ddylai'r ddalfa warantu darpariaeth amlach.</i> <i>Mae mwyafrif yr unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael eu monitro a</i>
--	--	---

		<i>chysylltir â nhw bob 30 munud gydol eu cyfnod yn y ddalfa, sy'n golygu eu bod yn dod i gysylltiad â staff y ddalfa bob 30 munud. Os na chynigir bwyd a diod iddynt, maent yn gwbl ymwybodol, ar ôl derbyn eu hawliau a'u hawlogaethau, y gallant ofyn am fwyd/diod ac eitemau eraill ar unrhyw adeg yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa. Yn ôl ein profiad ni, os yw unigolyn yn llwglyd/sychedig, bydd yn gofyn am fwyd/diod.</i> <i>O ran sicrhau bod anghenion lles unigolion a gedwir yn y ddalfa sy'n cysgu yn cael eu hystyried, mae PACE yn gorchymyn bod rhaid rhoi cyfnod gorffwys di-dor i BOB unigolyn a gedwir yn y ddalfa (pan fo angen) er mwyn sicrhau ei fod yn addas i gymryd rhan ym mhrosesau'r ddalfa megis cyfweiliadau, prosesu, ac ati. Oherwydd hyn, ni all staff y ddalfa ddeffro unigolion a gedwir yn y ddalfa i gynnig bwyd iddynt gan y byddai hyn yn tarfu ar eu cyfnod gorffwys, yn torri PACE, ac o bosibl yn oedi prosesau'r ddalfa a'u rhyddhau. Wrth gwrs, unwaith y byddant yn effro, caiff anghenion lles yr unigolion a gedwir yn y ddalfa eu hystyried bob amser, gan gynnwys yr angen am fwyd/diod, hylendid, ymarfer corff, ac ati.</i>
--	--	--


Swyddog benywaidd yn cyflwyno ei hun	Nododd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa ddau gofnod dalfa lle na allent ddod o hyd i dystiolaeth bod y swyddog benywaidd a neilltuwyd i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cyflwyno ei hun i'r unigolyn. Er y gallai hyn fod wedi digwydd a heb gael ei gofnodi, roedd absenoldeb cofnod clir yn ei gwneud yn anodd i'r aelod wirio a oedd y cyflwyniad wedi digwydd yn unol â'r safonau disgwylidig o ran ymgysylltu a chyfathrebu ag unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Nododd aelod arall o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa nad oedd yn glir a oedd swyddog benywaidd arall wedi'i neilltuo yn ystod y cyfnod yn y ddalfa. Cwestiwn i'r heddlu: <i>A all yr heddlu wirio a gyflwynodd swyddogion eu hunain i'r unigolion a gadwyd yn y ddalfa yn yr achosion hyn ac, os felly, a all roi sicrwydd y caiff rhyngweithiadau o'r fath eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion y ddalfa i gefnogi tryloywder a chraffu effeithiol? Yn ogystal, a all yr heddlu roi sicrwydd bod swyddog benywaidd wedi'i darparu'n gyson gydol y cyfnod yr oedd yr unigolyn benywaidd hon yn y ddalfa a bod hyn wedi'i nodi'n briodol yn ystod y trefniadau</i>	<i>Adolygwyd y cofnod dalfa cyntaf a neilltuwyd a newidiwyd y swyddog benywaidd yn dilyn y cyfnod trosglwyddo shift. Parhaodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa i gael ei harsylwi'n gorfforol agos ar Lefel 4 gydol ei chyfnod yn y ddalfa, ar gymhareb o 2:1 oherwydd ei hymddygiad, ac roedd yr holl swyddogion a oedd yn ei harsylwi yn fenywaidd. Er nad oes cofnod cadw yn y ddalfa pwrpasol yn nodi bod y swyddog benywaidd wedi cyflwyno ei hun, gellir tybio, gan fod y swyddog benywaidd wedi eistedd yn y gell yn monitro'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn bersonol, fod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cael ei chyflwyno iddi a'i bod wedi siarad â'r swyddogion. Adolygwyd yr ail gofnod dalfa. Cafodd swyddog benywaidd ei neilltuo a'i newid yn dilyn y cyfnod trosglwyddo shift. Y swyddog cyntaf a neilltuwyd oedd y swyddog dalfa a thywys benywaidd a oedd yn bresennol yn y ddalfa ac yn cynnal gwiriadau 30 munud ar yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Cwnstabl oedd yr ail swyddog, ac mae'n nodi yn y cynllun gofal fod y swyddog yn bresennol yn yr ystafell ac yn siarad â'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa. Unwaith eto, er nad oes cofnod cadw yn y ddalfa pwrpasol ar gyfer cyflwyno, roedd y swyddog dalfa a</i>
--	--	---

	<i>trosglwyddo neu amnewid yng nghofnod y ddalfa?</i>	<i>thywys benywaidd mewn cysylltiad rheolaidd â'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, ac mae'r ffaith bod yr ail swyddog wedi cyflwyno'i hun wedi'i dogfennu yn y cynllun gofal.</i> <i>Adolygwyd y cofnod dalfa lle nad oedd aelod o'r panel yn gallu nodi a oedd swyddog benywaidd arall wedi'i neilltuo. Roedd y cofnod dalfa hwn yn cynnwys un cyfnod trosglwyddo, a gall y Gwasanaethau Dalfa gadarnhau bod y swyddog benywaidd a neilltuwyd wedi'i newid yn dilyn y cyfnod trosglwyddo shift. Y ddau swyddog a neilltuwyd oedd y swyddogion dalfa a thywys ar ddyletswydd ar y shift hwnnw.</i>
--	--	--

Atodiad: Canfyddiadau'r adolygiad o'r cofnodion dalfa


Mae'r data isod yn amlinellu canlyniadau'r ffurflenni adborth a gwblhawyd gan Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa a ddadansoddwyd i nodi'r agweddau cadarnhaol a'r meysydd sydd angen eu gwella ym mhob maes penodol o'r ddalfa, gyda ffocws ar ddefnyddio grym yn y ddalfa. Adran ategol i'r adroddiad yw hon i roi cyd-destun i'r adrannau Crynodeb o'r canfyddiadau a Sylwadau'r panel uchod.

Demograffeg




- Gwyn Prydeinig oedd yr ethnigrwydd a gofnodwyd ar gyfer yr holl unigolion a gadwyd yn y ddalfa yn yr hapsampl hwn.
- Nid oedd unrhyw unigolyn a gadwyd yn y ddalfa dros 56 oed yn yr hapsampl hwn o gofnodion y ddalfa.

Dalfeydd




- Rhoddwyd mwy o ffocws ar sicrhau cynrychiolaeth o ddalfeydd o bob un o'r pedwar rhanbarth yn y gweithgarwch craffu hwn.
- O'r 30 achos a baratowyd, cyfrannodd pob rhanbarth chwe chofnod dalfa i'w hadolygu gan y panel.

Amser cyrraedd y ddalfa



Yr amser a aeth heibio o gyrraedd i gael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa


- Yr amser cyfartalog a aeth heibio o'r pwynt y cyrhaeddodd unigolyn y ddalfa ac awdurdodi'r cyfnod yn y ddalfa oedd 32 munud.
- Yr amser aros hiraf oedd 1 awr a 38 munud.
- Yr amser cyflymaf i unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa oedd chwe munud.



Cyfanswm yr amser yn y ddalfa

- Yr amser cyfartalog y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 14 awr a 25 munud.
- Yr amser hiraf y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 1 diwrnod, 12 awr a 33 munud.
- Mewn cyferbyniad, yr amser byrraf y cadwyd unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn y ddalfa oedd 4 awr a 21 munud.


Beth oedd yr angen am yr arestio?



- Gofynnwyd i'r panel benderfynu a oedd angen yr arestio. Dim ond os yw'n bodloni gofynion cyfreithiol penodol o dan adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) y mae arestio yn gyfreithlon.
- Gall swyddog ddewis mwy nag un angen ar gyfer arestio rhywun.
- Yr angen amlycaf i arestio a nodwyd oedd *Cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd* ac yna *Atal niwed corfforol iddynt eu hunain neu i eraill*.


Darpariaethau yn y ddalfa

A oedd darpariaeth ar gyfer gofynion crefyddol?




■ Naddo ■ Amh (achos dim crefydd)

A ofynnwyd i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am ofynion dietegol arbennig




■ Do ■ Naddo ■ Ni ddaethpwyd o hyd I fanylion

A gafodd yr unigolyn yn y ddalfa gyfarwyddyd ynghylch cloch alw'r gell?



■ Do
■ Naddo
■ Ni ddaethpwyd o hyd I fanylion
■ Amh


A hysbyswyd yr unigolyn yn y ddalfa am bicseli toiled?




■ Do ■ Naddo ■ Ni ddaethpwyd o hyd I fanylion

- Nododd y panel fod absenoldebau o ran cofnodi anghenion crefyddol, picseleiddio'r toiled a botwm cloch y gell.

A gafodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gyfarwyddiadau bod y toiled wedi'i bicseleiddio?



A ddarparwyd neu ystyriwyd eitem tynnu sylw?




- Nododd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa y canlynol o ran bwyd a lluniaeth yn peidio â chael eu cynnig yn rheolaidd:
 - Ymddengys mai dim ond dwy ddiod a gynigiwyd i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn ystod ei gyfnod yn y ddalfa (cyfanswm yr amser yn y ddalfa oedd 9 awr a 48 munud).
 - Ymddengys fod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi cael ei arsylwi tra oedd yn cysgu'r rhan fwyaf o'r amser – dim ond un achlysur y gallwn ei weld lle darparwyd bwyd a diod iddo yn ystod yr 16 awr y bu yn y ddalfa.


- Mae eitem tynnu sylw yn wrthrych risg isel a ddarperir i unigolion a gedwir yn y ddalfa i helpu i leihau gorbryder, aflonyddwch meddwl neu ofid tra byddant yn y ddalfa. Mae'r eitemau hyn yn arbennig o berthnasol i unigolion agored i niwed yn y ddalfa, gan gynnwys plant, y rhai ag anghenion iechyd meddwl, neu unigolion sy'n diddyfnu neu'n profi cyflyrau emosiynol dwysach. Mae enghreifftiau o eitemau tynnu sylw yn cynnwys y canlynol:
 - Peli straen neu eitemau ffidlan
 - Llyfrau lliwio a chreonau/pensiliau
 - Deunyddiau darllen (llyfrau, cylchgronau)
 - Posau (e.e. chwileiriau)
 - Eitemau meddal megis cymhorthion synhwyrdd (lle bo'n briodol)
 - Yn fwy diweddar, cyfrifiaduron llechen
- Nododd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa fod yr holl eitemau tynnu sylw a ddarparwyd i'r unigolion a gadwyd yn y ddalfa yn dangos tystiolaeth eu bod yn cael eu hasesu'n briodol am risg.

Unigolion benywaidd yn y ddalfa

A yw'r swyddog benywaethol a aseiniwyd yr un swyddog trwy gydol dalfa'r DP?




A wnaeth swyddog benywaidd gyflwyno'i hun i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa?



- Nododd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa fod swyddog benywaidd wedi'i neilltuo i bob un o'r saith unigolyn benywaidd yn y ddalfa.
- Nododd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa y canlynol hefyd:
 - Cynigiwyd cynhyrchion mislif i bob unigolyn a gadwyd yn y ddalfa.
 - Gofynnwyd i bob unigolyn benywaidd a gadwyd yn y ddalfa a hoffent siarad â rhywun o'r un rhyw.
- Rhoddodd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa y sylwadau canlynol ynghylch y ffordd yr oedd unigolion benywaidd a gadwyd yn y ddalfa yn cael eu trin yn gyffredinol:
 - Roedd cylchdro parhaus o swyddogion a enwir yn ystod y shift a chafodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ei monitro'n gyson gan swyddogion benywaidd.
 - Mae unigolyn benywaidd a gadwyd yn y ddalfa yn datgan ei bod yn feichiog, ond mae prawf yn gwrthbrofi hyn. Dywedodd yr un unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ei bod yn gwaedu o'r wain a'i bod wedi torri ei bawd. Aed â hi i'r ysbyty wedi hynny a daethpwyd â hi'n ôl i'r ddalfa ar ôl cael ei harchwilio gan staff yr ysbyty.
 - Nid oedd yn glir a oedd swyddog benywaidd ar gael gydol y cyfnod yn y ddalfa. Er bod y swyddog dalfa a thywys wedi'i neilltuo a bod cofnodion yn dangos ei bod wedi ymgysylltu a'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa am gyfnod, wedi hynny, nid yw'n glir a neilltuwyd swyddog benywaidd arall ai peidio.

Hylendid


A yw'r cofnod yn cyfeirio at unrhyw geisiadau hylendid sy'n cael eu gwneud/eu rhoi? (Dynion)



■ Do ■ Amh

- Ni nododd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa unrhyw bryderon mewn perthynas â hylendid nac unrhyw ofynion cyffredinol ar gyfer unigolion a gedwir yn y ddalfa.


A yw'r cofnod yn cyfeirio at unrhyw geisiadau hylendid sy'n cael eu gwneud/eu rhoi? (Fenywod)



■ Do ■ Naddo

Hawliau a hawlogaethau


A oedd oedi cyn cael hawliau
(e.e. i gael oedolyn
priodol/dehonglydd yn
bresennol) o fwy nag un awr?



■ Do ■ Naddo ■ Amh


- Rhoddwyd eu hawliau i bob unigolyn a gadwyd yn y ddalfa, naill ai yn ystod y cyfnod cofnodi i'r ddalfa neu yn ddiweddarach yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.
- Roedd yr oedi a brofodd rhai unigolion a gadwyd yn y ddalfa cyn cael eu hawliau a'u hawlogaethau o ganlyniad i'r ffactorau canlynol:
 - Ymddygiad ymosodol
 - Ymddygiad heriol a diffyg cydymffurfio
 - Meddwdod
 - Oedi wrth aros am oedolion priodol

A welodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gyfreithiwr neu a gafodd gyfle i siarad ag un tra bu yn y ddalfa?



■ Yes ■ No ■ No details found in the record ■ Amh

A welodd yr unigolyn gyfreithiwr neu a gafodd gyfle i siarad ag un tra bu yn y ddalfa?



■ Do ■ Naddo ■ Ni ddaethpwyd o hyd i fanylion ■ Amh

Pa mor hir, ar ôl awdurdodi'r cyfnod yn y ddalfa, y gwnaeth yr unigolyn yn y ddalfa gais am gyfreithiwr?


- Yr amser cyfartalog a gymerwyd i unigolyn yn y ddalfa wneud cais am gyfreithiwr oedd 3 awr a 39 munud.
- Yr amser hiraf a gymerwyd i unigolyn yn y ddalfa wneud cais am gyfreithiwr oedd wyth awr.

Yr amser a gymerwyd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr ar ddyletswydd oedd 1 awr a 45 munud.
- Y cyfnod hiraf oedd saith awr.


Yr amser a gymerwyd i gyfreithiwr gyrraedd o adeg cysylltu ag ef

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gyfreithiwr gyrraedd ar ôl cael cais oedd 7 awr a 34 munud.
- Teimlai dau aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa fod y cofnod yn aneglur er mwyn gallu gwirio cyfranogiad cyfreithiwr.
- Rhoddwyd yr holl gyngor gan gyfreithwyr wyneb yn wyneb.
- Cyfeiriodd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa at y canlynol:
 - Roedd yr oedi cyn cynrychiolaeth gyfreithiol o ganlyniad i ymddygiad a/neu feddwdod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa.
 - Cafwyd pedwar achos lle gwrthododd yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa yr opsiwn am gynrychiolaeth gyfreithiol.
 - Nid oedd cwmni personol yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn gallu mynychu ac fe wnaeth wrthod yr opsiwn am gyfreithiwr ar ddyletswydd.
 - Roedd y cyfreithiwr ar ddyletswydd yn gweld chwe unigolyn arall yn y ddalfa, a arweiniodd at yr oedi.



- Gofynnwyd i'r panel nodi'r dull datrysiad i asesu a gafodd unigolion a gadwyd yn y ddalfa, ac a oedd yn destun defnydd o rym yn y ddalfa, eu cadw yn gymesur â'r angen i'w harestio.
- Fel y gellir gweld, mae'r datrysiad wedi'i wasgaru ar draws ystod eang o ddulliau, gyda dim ond un yn cyfeirio at Dim Gweithredu Pellach.


Lefel arsylwi



- Pennwyd lefel arsylwi ar gyfer pob cofnod dalffa a adolygwyd a dilynwyd pob un.
- Bernir lefel y risg ar bedair lefel.
 - Lefel 1 – Cyffredinol (o leiaf unwaith bob awr)
 - Lefel 2 – Ysbeidiol (bob 30 munud)
 - Lefel 3 – Cyson (arsylwi cyson ar deledu cylch cyfyng ac yn hygyrch bob amser)
 - Lefel 4 – Yn gorfforol agos (dan oruchwyliaeth gorfforol agos)
- O'r ddau gofnod dalffa a osodwyd ar Lefel 2, roedd tystiolaeth i wirio bod yr unigolion a gadwyd yn y ddalffa yn cael eu deffro a bod y camau yn cael eu dilyn.
- Gwnaeth Panel Craffu Annibynnol y Ddalffa y sylwadau canlynol mewn perthynas â'r lefelau arsylwi:
 - Tystiolaeth dda o'r rhesymeg dros israddio ac uwchraddio lefelau yn ôl yr asesiad risg.
 - Dangosodd nifer o unigolion a gadwyd yn y ddalffa ymddygiad heriol, treisgar ac ymosodol tuag at staff a thuag atynt eu hunain.
 - Nododd un aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalffa nad oedd y gwaith o gofnodi lefelau arsylwi a chynlluniau gofal bob amser yn glir nac yn gyson yn nghofnod y ddalffa. Mewn sawl achos, roedd yn ymddangos bod cofnodion yn cyfeirio at wahanol lefelau arsylwi ar yr un pryd, neu'n disgrifio arferion arsylwi nad oeddent yn amlwg yn cyfateb i'r lefel a gofnodwyd. Roedd hyn yn creu amwysedd o ran statws arsylwi gwirioneddol yr unigolyn yn y ddalffa, ac roedd yn anodd penderfynu a oedd lefel y gwaith monitro wedi'i dogfennu'n gywir a'i chymhwyso'n gyson.

Gwasanaethau cymorth


A gafodd yr unigryw fynediad/cynnig/cyfeirio at unrhyw wasanaethau cymorth tra bu yn y ddalfa?



- Cynigiwyd gwasanaethau cymorth i 67% o unigolion a gadwyd yn y ddalfa o'u cymharu â 28% na chafodd gynnig gwasanaethau cymorth, ac roedd un cofnod lle nad oedd hyn yn berthnasol.
- I'r rhai na chynigiwyd gwasanaethau cymorth iddynt, nododd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa y rhesymau canlynol:
 - Gwrthodwyd y gwasanaeth gan yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa.
 - Roedd darpariaethau eisoes ar waith.
- Nododd aelodau'r panel fod y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau cymorth a wnaed ar gyfer iechyd meddwl.

Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol


A welodd yr unigolyn weithiwr gofal iechyd proffesiynol tra bu yn y ddalffa?



■ Do ■ Naddo

- Nododd y panel fod yr oedi a brofodd unigolyn a gadwyd yn y ddalffa cyn gweld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol o ganlyniad i'r ymddygiad ymosodol a ddangoswyd gan yr unigolyn.
- Canfu Panel Craffu Annibynnol y Ddalffa dystiolaeth o gofnodion dalffa gofalgarn, manwl ac effeithiol.
- Mae'n ymddangos bod staff y ddalffa yn cydnabod pryderon iechyd meddwl, ond profwyd anhawster wrth geisio asesu hyn gan fod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalffa wedi gwrthod ateb y cwestiynau asesu risg.


A fu oedi cyn i weithwyr gofal iechyd proffesiynol fynychu a chynnal asesiad iechyd o'r unigolyn yn y ddalffa?




■ Oedd ■ Nac oedd

Defnyddio grym

A ddefnyddiwyd grym yn y suite cadw?




A oedd y grym a ddefnyddiwyd yn angenrheidiol ac yn gymesur?




- Gofynnwyd i Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa a oedd unrhyw fath o ymddygiad neu amgylchiadau a arweiniodd at ddefnyddio grym. Nododd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa y canlynol:
 - Roedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn ymgysylltu'n dda i ddechrau ond roedd yn ymddwyn yn anwadal ac yn anrhagweladwy ac yn ymddangos i fod yn chwilio am gyfle i wrthdaro.
 - Roedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn aflonyddgar ac yn sgrechian ac eisiau mynd adref. Ni ellid rhesymu ag ef ac aethpwyd ag ef yn ôl i'r gell.
 - Roedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn poeri ac yn ymddwyn yn dreisgar ac yn anghyfeillgar iawn.
 - Hunan-niweidio.
 - Dan ddylanwad ac yn ymosodol.
- Nododd un aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa nad yw'r cofnod dalfa yn nodi'n glir a ddefnyddiwyd grym yn ystod y cyfnod yn y ddalfa neu a ddefnyddiwyd gefynnau wrth arestio yn unig a'u bod wedi'u tynnu yn y ddalfa wedi hynny. At hynny, nid oes unrhyw amser wedi'i gofnodi ar gyfer pryd y tynnwyd y gefynnau, gyda'r maes yn nodi am 01:22 BST ("Os defnyddiwyd gefynnau, yr amser y tynnwyd y gefynnau:") wedi'i adael yn wag. Mae hyn yn cyfyngu ar y llwybr archwilio ac yn ei gwneud yn anodd pennu graddfa a hyd unrhyw ddefnydd o rym.
- Nododd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa mai'r dacteg grym fwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd yn y ddalfa oedd gefynnau, ac yna'r dechneg llaw agored (gwthio, dyrnu, gafael), ac ataliaethau wyneb i lawr (ataliaethau ar y llawr).
- Roedd pedwar achos lle'r oedd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa o'r farn nad oedd y defnydd o rym yn angenrheidiol ac yn gymesur ac nad oedd y rhesymeg yn ddigonol, ac ni ellid canfod cofnod o ddefnyddio grym mewn pedwar achos ychwanegol.

A ydych yn ystyried bod y sail resymegol a ddarparwyd dros ddefnyddio grym yn ddigonol?




■ Do ■ Naddo ■ Amh

A achoswyd unrhyw anafiadau i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa o ganlyniad i'r digwyddiad?



■ Do ■ Naddo ■ Amh

A achoswyd unrhyw anafiadau i staff y ddalfa o ganlyniad i'r digwyddiad?



■ Do ■ Naddo ■ Amh


Nododd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa y sylwadau canlynol mewn perthynas â defnyddio grym yn y ddalfa:

- *Dealltwriaeth dda o unigolyn ifanc. Gellid gwella'r ffordd y cofnodwyd sut yr aethpwyd â hi yn ôl i'w chell a pha fath o rym a ddefnyddiwyd.*
- *Nid achosodd y defnydd o rym unrhyw anafiadau, ond cafodd unigolyn a gadwyd yn y ddalfa anafiadau o ganlyniad iddo daro ei ben ar gawell y fan ar y ffordd i'r ddalfa a hunan-anafiadau posibl tra yn y gell.*
- *Dywed y cofnod "Tra yn y gell, defnyddiwyd grym i ffrwyno'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa tra oedd eitemau'n cael eu symud." Gellid bod wedi darparu mwy o fanylion ynghylch sut y cafodd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa ei ffrwyno.*
- *Mae'r unig bryder yn ymwneud â chofnodi – neu ddiffyg cofnodi o bosibl – gan ei bod yn ymddangos yn debygol bod grym wedi'i ddefnyddio wrth dynnu dillad.*
- *Cofnodi pa rym a ddefnyddiwyd a phryd nad yw'n glir gwneud sylwadau*
- *Yr arfer da oedd cydweithio a rhoi cynnig ar wahanol ddulliau o dynnu sylw. Gwrthod cawod ond gofynnwyd pam. Darparu creonau a phapur i dynnu sylw.*
- *Pryder ynghylch adolygiad yr arolygydd, sy'n nodi 'Ni ddefnyddiwyd grym tra yn y ddalfa'.*

Noeth-chwiliad


- Ym mhob un o'r pedwar cofnod, roedd yn anhysbys neu'n aneglur a oedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi'i hysbysu bod y teledu cylch cyfyng naill ai wedi'i guddio neu wedi'i ddiffodd at ddibenion y chwiliad.
- Roedd un aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn ansicr ynghylch y rhesymeg a ddarparwyd dros y noeth-chwiliad; fodd bynnag, yn achos y tri arall a gofnodwyd, roedd yn fodlon ac o'r farn bod y rhesymeg yn dderbyniol.

A wnaethpwyd chwilio am strip ar y daledig?




■ Oedd ■ Nac oedd

A oedd yna resymeg dda dros noeth-chwiliad?



■ Oedd ■ Nac oedd


A oedd oedolyn priodol yn bresennol yn ystod y noeth-chwiliad?




■ Oedd ■ Nac oedd

Iechyd meddwl, oedolion priodol a mathau eraill o fregusrwydd

A nododd yr heddlu fod angen oedolyn priodol?




A oedd unrhyw reswm pam na ddarparwyd oedolyn priodol?




- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i swyddog y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol oedd 7 awr a 48 munud, a'r amser ar gyfartaledd i'r unigolyn a gadwyd yn y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol am y tro cyntaf oedd 1 awr a 26 munud.
- Y cyfnod hiraf oedd 12 awr, ac, mewn cyferbyniad, y cyfnod byrraf oedd pedair awr. Nododd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa y rhesymeg ganlynol dros yr oedi:
 - Gorfod aros nes bod yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa wedi sobri o fod yn feddw.
 - Roedd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa yn cysgu oherwydd yr amser y cafodd ei arestio.
 - Pellter teithio i'r oedolyn priodol.
 - Amharodrwydd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa i ateb cwestiynau asesu risg.
- Nododd y panel y rhesymau canlynol, heblaw am fod yn blentyn, pam roedd gan yr unigolion yn y ddalfa hyn fregusrwydd ychwanegol:
 - Niwroamrywiaeth
 - Camddefnyddio sylweddau
 - Iechyd meddwl / seicosis
 - Meddyginiaeth ar gyfer anaf corfforol gwanychol
 - Hanes o hunan-niweidio
 - Epilepsi
- Nododd aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa fod yr heddlu wedi nodi'r angen am oedolyn priodol ond, yn ystod y cyfnod trosglwyddo, hysbyswyd rhingyll y ddalfa nad oedd angen yr oedolyn priodol ar gyfer proses y ddalfa. Cafodd yr unigolyn yma ei chyhuddo wedi hynny a'i hanfon yn syth i'r llys heb unrhyw oedolyn priodol i sicrhau ei bod yn deall beth oedd yn digwydd. Nododd yr aelod o Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa fod yr unigolyn yma wedi'i nodi fel un â chyflwr deubegynnol/iselder a nifer o broblemau iechyd corfforol, gan gynnwys llid y cymalau.

A gysylltwyd â'r unigolyn
enwebedig/oedolyn priodol?



■ Do ■ Naddo

Oedd unrhyw reswm ar gael
dros oedi ym mhresenoldeb
AA?



■ Do Rhesymeg wedi rhoi
■ Naddo, Dim rhesymeg wedi rhoi
■ Amh


Plant yn y ddalfa

- O'r ddau blentyn a gafodd eu cadw yn y ddalfa:
 - Cwblhawyd pob rhestr wirio plentyn.
 - Cynhaliwyd pob adolygiad arolygydd priodol.
 - Cafodd y ddau blentyn eu cadw dros nos gyda gofal amgen yn cael ei geisio ar gyfer un, ac nid oedd yn bosibl ar gyfer y llall oherwydd gwrthodiad y darparwr gofal.
 - Cofnodwyd Llais y Plentyn.
- Ni chynhaliwyd un cyfweiliad 'Eiliadau Cyraeddadwy' oherwydd argaeledd cyfyngedig y gweithiwr ieuenctid. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn ymwybodol o'r ffaith bod cynyddu nifer y gweithwyr Eiliadau Cyraeddadwy ar y gweill ar hyn o bryd.
- Ni chododd aelodau Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa unrhyw bryderon ynghylch yr agwedd hon.

Coch Melyn Gwyrdd

Ar ddiwedd pob cofnod dalfa a adolygwyd, gofynnwyd i'r panel adolygu'r meini prawf isod ac asesu eu sgoriau cyffredinol o'r cofnod dalfa gan ddefnyddio'r sgôr Coch Melyn Gwyrdd:

Enghreifftiau o resymau dros y sgoriau	Camau dilynol
Rhesymeg lawn wedi'i rhoi sy'n gyfiawn ac yn gymesur dros ddefnyddio grym neu noeth-chwiliad, neu ar gyfer unrhyw oedi gan asiantaethau allanol sy'n cynorthwyo unigolion yn y ddalfa.	Dim camau pellach ar hyn o bryd.
Mae pob hawl a hawlogaeth wedi'u rhoi i'r unigolyn yn y ddalfa.	
Defnyddiwyd dulliau dad-ddwysáu clir, eitemau tynnu sylw ac ati i liniaru risg yr unigolyn yn y ddalfa rhag hunan-niweidio bwriadol.	
Cyfiawnhad prin neu aneglur dros ddefnyddio'r dillad gwrth-niwed, defnyddio grym neu noeth-chwiliad.	Cyngor / hyfforddiant pellach i staff y ddalfa.
Dim digon o wybodaeth i benderfynu ar unrhyw oedi cyn i'r sawl a gadwyd yn y ddalfa gael ei hawliau i gael cynrychiolaeth gyfreithiol neu oedolyn priodol.	
Cofnodi hawliau a hawlogaethau mewn modd anghyson.	
Nid oes unrhyw resymeg neu nid yw'r cyfiawnhad yn gymesur.	Mae angen archwiliad pellach mewn perthynas â'r diffyg rhesymeg. Achosion i'w codi gydag arolygydd y ddalfa.
Penderfyniadau wedi'u gwneud heb wybodaeth am risg, a heb unrhyw resymeg arall.	
Oedi sylweddol wrth i'r unigolion yn y ddalfa weld ymarferydd gofal iechyd, defnyddio gwasanaethau cyfreithiol, neu gael oedolyn priodol yn bresennol.	
Dim ystyriaeth amlwg i fregusrwydd yr unigolyn yn y ddalfa.	



Y rhesymeg a bennwyd i bob gradd lliw oedd asesiad/barn aelodau unigol y panel o'r cofnod dalffa yr aseiniwyd iddynt. Isod mae peth o'r rhesymeg a ddarparwyd gan y panel ar gyfer eu graddio:

Gwyrdd	Melyn	Coch
"Defnyddiwyd y defnydd a'r lefel gywir o rym yn yr achos hwn"	"Gwelwyd arfer da gydol cyfnod yr unigolyn yn y ddalffa. Defnydd da o gynllun gofal plant ac eiliadau cyraeddadwy, lefelau, oedolyn priodol, cyflwyniad hyblyg sy'n newid ar gyfer yr unigolyn a gadwyd yn y ddalffa. Y gwendid yn y cofnod achos hwn yw'r cofnod clir o unigolyn ifanc yn cael ei harwain yn ôl i'w chell. Mae angen amlinellu'n glir sut mae grym yn cael ei ddefnyddio"	"Nid oes darlun clir i ddangos pa fath o rym a ddefnyddiwyd, a bod yr arolygwyr yn ymwybodol o'r hyn a ddefnyddiwyd. Mae'n destun pryder bod ystod o rym yn cael ei defnyddio ar wahanol adegau ac nad oes eglurder. Mae'r sefyllfa hon yn gofyn am graffu pellach o fewn yr heddlu"
"roedd pob cam a gymerwyd gan y swyddogion er mwyn amddiffyn yr unigolyn a gadwyd yn y ddalffa a nhw eu hunain"	"Gellid bod wedi cofnodi mwy o fanylion ynghylch y dull ffrwyno."	"dim rhesymeg wedi'i rhoi mewn perthynas a'r amser y gofynnwyd am gyfreithiwr (2.23pm) i'r amser y cyrhaeddodd y cyfreithiwr (5.51pm)."

"Swyddogion mewn sefyllfa anodd iawn pan wrthododd yr unigolyn a gadwyd yn y ddalfa asesiad risg."	"Amwysedd yn y cofnodion ynghylch a ddefnyddiwyd grym gwirioneddol yn y ddalfa. Dywed yr arolygydd na ddefnyddiwyd unrhyw rym yn y ddalfa."	
"arferion da yn gyffredinol gydag unigolyn heriol yn y ddalfa"	"Mae'n ymddangos bod defnydd yr arolygydd o'r datganiad 'Ni ddefnyddiwyd grym' yn mynd yn groes i weddill y cofnod."	